# PWYLLGOR PENODI UWCH REOLWYR

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 3 Tachwedd, 2022.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd L. Burnett (Cadeirydd); Cynghorydd B.E. Brooks (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G.D.D. Carroll, P. Drake, S.M. Hanks and Dr. I.J. Johnson.

405 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

406 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Hydref, 2022 fel cofnod cywir.

407 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

408 TREFNIADAU RECRIWTIO A DETHOL AR GYFER PENNAETH Y GWASANAETH ARCHWILIO MEWNOL RHANBARTHOL(CAC) -

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid / Swyddog Adran 151 yr adroddiad sy'n nodi'r trefniadau recriwtio a dethol a gynigir ar gyfer swydd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol a gofynnwyd am gymeradwyaeth ar gyfer y trefniadau arfaethedig.

Yn dilyn trafodaeth gan Fwrdd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol (yn cynnwys Swyddogion Adran 151 y 4 Cyngor) ("y Partneriaid") cynigiwyd bod y swydd newydd yn cael ei hysbysebu cyn gynted â phosibl gan fod y rôl yn hanfodol i gyflawni a datblygu'r Gwasanaeth.

Cynigiwyd bod y swydd yn cael ei hysbysebu'n fewnol ac yn allanol er mwyn sicrhau'r cyfle gorau i ddenu unigolyn sydd wedi cymhwyso'n briodol, yn fedrus a phrofiadol i'r rôl.

Roedd y broses benodi arfaethedig yn cynnwys cymryd rhan y Partneriaid oherwydd bod y Gwasanaeth yn wasanaeth rhanbarthol a rennir â Phen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful, Cyngor Rhondda Cynon Taf gyda Bro Morgannwg yn Awdurdod Lletyol y gwasanaeth a chyflogwr y staff.  Roedd hyn yn cynnwys cyfranogiad y Cadeiriau Llywodraethu ac Archwilio rhanbarthol a Swyddogion Adran 151 o fewn y gwasanaeth a rennir hwn.

Holodd y Pwyllgor hefyd, ac fe'u harfarnwyd wedyn, am y broses recriwtio flaenorol ar gyfer y rôl hon, a oedd wedi gweithio'n dda yn gyffredinol ac a fyddai'n cael ei ddilyn eto, yn ogystal â chymryd unrhyw wersi a ddysgwyd o'r broses flaenorol.

Ar ôl ystyried yr adroddiad,

PENDERFYNWYD -

(1) B O D swydd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol yn cael ei hysbysebu'n fewnol ac yn allanol.

(2) F O D y Disgrifiad Swydd (ynghlwm wrth Atodiad A i'r adroddiad) a'r Fanyleb Person (ynghlwm wrth Atodiad B i'r adroddiad) mewn perthynas â swydd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol yn cael ei gymeradwyo.

(3) R H O D D I R awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Cyllid i ymgymryd â'r rhestr a'r asesiad hir/byr cychwynnol o ymgeiswyr, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd a Chyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol a Swyddogion Adran 151 yn yr awdurdodau Partner.

(4) B O D y cynnig ynghylch Cadeirydd (neu Is-gadeirydd) y Pwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio o bob un o'r awdurdodau Partner sy'n cael eu gwahodd i gymryd rhan yn y broses asesu, yn cael ei gymeradwyo.

(5) B O D swyddogion Adran 151 o'r awdurdodau Partner yn rhan o'r diwrnod asesu i sicrhau y gall eu barn gael eu hystyried gan y Pwyllgor hwn, yn cael ei nodi.

(6) B O D yn dibynnu ar ganlyniad y broses asesu, cyfarfod pellach o'r Uwch Bwyllgor Penodi Rheoli yn cael ei gynnal i gyfweld a phenderfynu pa mor addas yw ymgeiswyr i'w penodi i'r swydd.

<u>Y rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Sicrhau bod y penodiad yn mynd rhaddo yn unol â gofynion cyfansoddiad y Cyngor

(2) Caniatáu i faterion gael eu datblygu cyn cam olaf y broses recriwtio.

(3) Sicrhau ymgysylltiad Swyddogion Adran 151 a Chadeiryddion Pwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio'r Awdurdodau Partner yn y broses recriwtio a dewis.

(4) I alluogi Cadeirydd y Pwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio i fod yn rhan o'r broses asesu.

(5) I alluogi i Swyddogion Adran 151 fod yn rhan o'r broses asesu.

(6) I alluogi dilyniant y broses recriwtio yn unol â phrosesau uwch benodiadau rheolwyr y Cyngor.